




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymorth i Brynu – Cymru

## Cais Newid Perchnogaeth

[www.llyw.cymru/cymorthibrynu](http://www.llyw.cymru/cymorthibrynu)



# Cais Newid Perchnogaeth

## Cyfrinachol



Cyn gwneud cais am newid perchnogaeth, darllenwch **Ganllaw ar ôl Gwerthu** am arweiniad ac i weld pwy sy'n gymwys. Mae'r canllaw ar gael i'w lawrlwytho ar [www.llyw.cymru/cymorthibrynu](http://www.llyw.cymru/cymorthibrynu)

Pwysig: cyn i chi fynd yn eich blaen â newid perchennog eich eiddo, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol ac ariannol annibynnol ar effeithiau'r newidiadau hyn.

Llenwch yr adrannau canlynol ar y ffurflen hon gan ddefnyddio **LLYTHRENNAU BREISION** er mwyn i ni allu prosesu'ch cais yn gyflym.

### Adran 1: Manylion Personol

### Adran 2: Manylion Ariannol

### Adran 3: Trosglwyddo Ecwiti

### Adran 4: Gwybodaeth am Ail-forgeisio

### Adran 5: Manylion Trawsgludwr/Cyfreithiwr

### Adran 6: Manylion y Cynghorydd Ariannol

### Adran 7: Defnyddio'ch Gwybodaeth

### Adran 8: Datgeliadau a Chytundebau

## Cyflwynwch y Ffurflen Newid Perchnogaeth wedi'i chwblhau ynghyd â:

- Tystiolaeth Incwm:**  
Cyflogedig: Slipiau cyflog 3 mis diweddaraf.  
Hunangyflogedig: trosolwg o'r flwyddyn dreth ddiweddaraf gan yr HMRC a chyfrifiad treth yr HMRC.  
Cwmni Cyfyngedig: Cyfrifon wedi'u harchwilio (neu'r uchod).
- Ffurflen Cydsynio'r Preswlydd:**  
Person(au) dros 18 oed sy'n preswyllo yn yr Eiddo ond sydd heb eu henwi ar y Morgais Ecwiti.  
Rhaid ei rhoi i'ch cyfreithiwr ei llenwi.
- Ffurflen Cydsynio'r Parti Ymadael:**  
I'w llenwi a'i llofnodi gan y benthycwr presennol.
- Y Morgais a Gynigir:**  
Derbynnir penderfyniad/cytundeb cychwynnol mewn egwyddor, gan gydnabod y darperir y cynnig llawn cyn rhoi cytundeb ffurfiol.  
Sicrhau bod benthycwr y morgais newydd yn fenthycwr sy'n cymryd rhan. Gweler y rhestr ar ein gwefan.
- Prisiad RICS:**  
Os oes taliad ecwiti'n cael ei wneud i fenthycwr sy'n ymadael trwy ailfforgeisio'r eiddo, mae angen Prisiad arnom i weld beth yw gwerth yr eiddo ar y farchnad.  
Os na chaiff y cais ei gymeradwyo, ni chaiff cost y Prisiad ei had-dalu.

**Caiff asesiad credyd a fforddiadwyedd ei gynnal.**

## Gwybodaeth Gysylltu

Ffôn: 08000 937 937 opsiwn 2

E-bost: [gwblhau@cymorthibrynucymru.co.uk](mailto:gwblhau@cymorthibrynucymru.co.uk)

Gwefan: [www.gov.wales/helptobuy](http://www.gov.wales/helptobuy)

## Anfonwch y Ffurflen Cyfarwyddo Newid Perchnogaeth

drwy'r post, ffacs neu e-bost i:

Help to Buy (Wales) Ltd  
1 Capital Quarter  
Stryd Tyndall  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffacs: 029 2080 3451

Cyfeiriad e-bost ar gyfer prosesau ar ôl cwblhau: [wedicwblhau@cymorthibrynucymru.co.uk](mailto:wedicwblhau@cymorthibrynucymru.co.uk)

## YMWADIAD

Er mwyn lleihau'r oedi cyn i'ch cais gael ei brosesu, sicrhewch fod yr holl adrannau wedi'u llenwi a'u cwblhau, bod y blychau priodol wedi'u ticio a bod yr holl ddogfennau perthnasol yn cael eu darparu.

Bydd unrhyw geisiadau heb yr wybodaeth hon yn cael eu dychwelyd ac ni fydd Cymorth i Brynu (Cymru) Cyf yn gyfrifol am unrhyw oedi all ddigwydd o ganlyniad.

## Cwynion

Os oes problem gyda'ch Morgais Ecwiti, ceisiwch ei datrys gyda ni yn y lle cyntaf.

Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd rydym wedi trin eich cwyn neu gyda'r canlyniad, gallwch gwyno wrth y Gwasanaeth yr Ombwdsman Ariannol.

Os na fyddwch wedi codi'r gŵyn gyda ni gyntaf, ni fyddwch yn cael cwyno wrth yr Ombwdsman. Gallwn roi gwybodaeth ichi ynghylch sut i gysylltu â'r Ombwdsman.

## Adran 1: Gwybodaeth Bersonol

### Gwahanol Ddogfennau Adnabod

I gydymffurfio â'r rheoliadau ar Atal Gwyngalchu Arian, byddwn yn gwirio pwy yw'r holl ymgeiswyr a'u cyfeiriadau presennol a blaenorol. Caiff y gwiriadau hyn eu gwneud yn electronig. Ond os na allwn fodloni'r rheoliadau na'n polisi trwy ddulliau electronig, bydd angen prawf cydiadwy o bwy ydych chi ac o'r holl gyfeiriadau sydd eu angen.

<b>Cyfeirnod cyfrif:</b>		
	<b>Perchennog sy'n Aros</b>	<b>2il Berchennog Newydd (os yw'n berthnasol)</b>
Teitl:		
Enw cyntaf:		
Enw(au) canol:		
Cyfenw:		
Ydych chi wedi cael eich adnabod wrth enw arall yn y 3 blynedd ddiwethaf?		
Rhif(au) ffôn:		
Cyfeiriad e-bost:		
Dyddiad geni:		
Cenedligrwydd		
Cyfeiriad presennol:		
Amser yn y cyfeiriad:		
Cyfeiriad blaenorol os ydych chi wedi bod lai na 3 blynedd yn eich cyfeiriad presennol:		

	<b>Perchennog sy'n Aros</b>	<b>2il Berchennog Newydd (os yw'n berthnasol)</b>	
Ydych chi'n brynwr tro cyntaf?	Na	YDW	NAC YDW
Ydych chi'n berchen ar eiddo preswyl?	Cyfeiriad presennol	YDW	NAC YDW
Os ydych, nodwch y cyfeiriad rydych am ei werthu:  Dyddiad gwerthu arfaethedig y cyfeiriad hwn:	Ddim yn berthnasol		
Y berthynas rhwng ymgeiswyr:			
Nifer yr oedolion fydd yn byw yn yr Eiddo (18 oed a throsodd): Dychwelwch y Ffurflen Cydsynio'r Preswlydd ar gyfer oedolion dros 18 oed sy'n byw yn yr Eiddo nad ydynt wedi'u henwi ar y Morgais Ecwiti.			
Nifer y plant fydd yn byw yn yr Eiddo (dan 18 oed):			

## Adran 2: Manylion Ariannol

Mae'n bwysig rhoi gwybodaeth gywir am eich incwm rhag eich ymrwymo i ormod o forgais. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn am eirida a bydd angen tystiolaeth annibynnol arnom o'ch incwm ar ffurf slipiau cyflog os ydych yn gyflogedig neu'ch asesiad treth diweddaraf os ydych yn hunangyflogedig.

	<b>Perchennog sy'n Aros</b>	<b>2il Berchennog Newydd (os yw'n berthnasol)</b>	
Mae angen tystiolaeth o'ch incwm (sy'n weddill ac yn dod i mewn): Cyflogedig: Slipiau talu'r 3 mis diweddaraf Hunangyflogedig: Asesiad treth (SA302), Cyfrifiad Blwyddyn Treth a'r Trosolwg o'r Flwyddyn Dreth			
Enw'r cyflogwr:			
Cyfeiriad y cyflogwr:			
Teitl y swydd:			
Hyd y gyflogaeth:			
Hunangyflogedig:	YDW	NAC YDW	YDW NAC YDW

	<b>Perchennog sy'n Aros</b>	<b>2il Berchennog Newydd</b>
Incwm blynyddol gros (cyn treth ac Yswiriant Gwladol):	£	£
Goramser blynyddol, bonws, comisiynau:	£	£
Credydau treth gwaith misol:	£	£
Lwfans anabledd misol:	£	£
Incwm cynnal misol:	£	£
Incwm/lwfansau rheolaidd eraill:	£	£
Didyniad pensiwn misol:	£	£
Talebau gofal plant misol:	£	£
Ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr misol:	£	£
Cyfanswm ad-daliadau benthyciadau misol/HP:	£	£
Cyfanswm balansau cardiau credyd a chardiau siop:	£	£

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol am incwm neu ymrwymadau a allai fod yn ddefnyddiol wrth brosesu'ch cais:

### Adran 3: Trosglwyddo Ecwiti

Oes Ecwiti'n cael ei Drosglwyddo i'r Parti Ymadael fel rhan o'r broses newid perchenogaeth?	OES	NAC OES
Ydych chi'n benthg arian ychwanegol yn erbyn yr Eiddo i'w dalu ar gyfer Trosglwyddo Ecwiti?	YDW	NAC YDW
Os ydych, faint o arian ychwanegol ydych chi'n ei fenthg?	£	

## Adran 4: Ail-forgeisio Gwybodaeth

A yw ail-forgais yn cael ei sicrhau yn ystod y broses hon?	YDY	NAC YDY
Benthyciwr Cyntaf (First Charge Lender) Cyfredol	Blaendaliad y Benthyciwr Cyntaf Cyfredol: £	
Tymor Morgais Cyfredol:		
Benthyciwr Cyntaf Newydd**:	Blaendaliad y Benthyciwr Cyntaf Newydd*: £	
Tymor Morgais Newydd:		
Dyddiad cwblhau disgwylidig/dymunol:		
<p>**Sicrhau bod benthyciwr y Morgais Newydd yn fenthyciwr sydd wedi'i gymeradwyo ac sy'n cael ei enwi ar ein rhestr o fenthycwyr sy'n cymryd rhan ar wefan LLYW.CYMRU.</p> <p>* Os gwneir taliad ecwiti i fenthyciwr sy'n ymadael drwy ailforgeisio'r Eiddo, rhaid i chi ofyn am Brisiad gan RICS i weld beth yw Gwerth yr Eiddo ar y Farchnad. Noder os na chaiff y cais ei gymeradwyo yn dilyn yr asesiad o fforddiadwyedd, ni chaiff cost y prisiad ei ad-dalu.</p>		

## Adran 5: Manylion Trawsgludwr/Cyfreithiwr

Mae'r benthyciwr morgais wedi penodi cyfreithiwr i gwblhau'r broses Newid Perchnogaeth:	YDY	NAC YDY
Bydd cyfreithiwr benthycwyr y morgais yn gweithredu hefyd drosof/ni yn y broses Newid Perchnogaeth:	YDY	NAC YDY
Byddaf yn ceisio Cyngor Cyfreithiol Annibynnol ar gyfer y broses Newid Perchnogaeth*:	YDY	NAC YDY

### Manylion Trawsgludwr/Cyfreithiwr

Enw'r Cwmni:	
Cyfeiriad y Cwmni/Cangen:	Enw Cyswllt:
	Rhif(au) Ffôn:
	Cyfeiriad E-bost:

### \*Manylion Trawsgludwr/Cyfreithiwr – lle byddaf/byddwn yn cael fy/ein cyngori ar wahân

Enw'r Cwmni:	
Cyfeiriad y Cwmni/Cangen:	Enw Cyswllt:
	Rhif(au) Ffôn:
	Cyfeiriad E-bost:

**Cynghorydd Ariannol Annibynnol (IFA)/Cynghorydd Morgais**

Enw'r Cwmni:

Cyfeiriad y Cwmni/Cangen:

Enw Cyswllt:

Rhif(au) Ffôn:

Cyfeiriad E-bost:

**Prisiwr RICS**

**Os gwneir taliad ecwiti i fenthyciwr sy'n ymadael drwy ailforgeisio'r Eiddo, rhaid i chi ofyn am Brisiad gan RICS i weld beth yw Gwerth yr Eiddo ar y Farchnad. Noder os na chaiff y cais ei gymeradwyo yn dilyn yr asesiad credyd a fforddiadwyedd, ni chaiff cost y Prisiad ei ad-dalu.**

Enw'r Cwmni:

Cyfeiriad y Cwmni/Cangen:

Enw Cyswllt:

Rhif(au) Ffôn:

Cyfeiriad E-bost:



**Darllenwch y wybodaeth bwysig ganlynol yn ofalus. Mae hwn yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn.**

1. Disgrifir sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn ein hysbysiad preifatrwydd. Ceir copi ohono yn <https://developmentbank.wales/cy/polisi-preifatrwydd> neu drwy gysylltu â ni ym Manc Datblygu Cymru, 1 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ.
2. Rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth er mwyn i ni allu cynnig a rheoli'ch cyfrifon, cadarnhau pwy ydych chi, atal twyll, eich gwasanaethu, casglu ac adfer dyledion a rhedeg ein busnes.
3. Rydym yn rhannu'ch gwybodaeth yn ôl y gofyn o fewn Banc Datblygu Cymru, a chydag unrhyw drydydd partion rydych wedi gofyn iddynt weithredu ar eich rhan.
4. Os yw'r gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni, byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth yn ôl y gofyn hefyd â sefydliadau eraill. Gall y rheini gynnwys asiantaethau cyfeirio credyd, asiantaethau atal twyll a chyrrff eraill y llywodraeth, rheoleiddwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.
5. Pan fyddwn yn rhannu'ch gwybodaeth ag asiantaethau cyfeirio credyd, byddant yn ei defnyddio i gadarnhau'ch graddfa gredyd. Mae'r gwiriadau hyn yn aml yn rhan o brosesau ceisio am gyfrif, ond byddant yn gadael cofnod ar eich ffeil credyd y bydd benthycwyr eraill yn gallu ei weld. Gallai effeithio ar eich gallu i gael credyd rywle arall am gyfnod byr.
6. Pan fyddwn yn rhannu'ch gwybodaeth ag asiantaethau atal twyll, byddant yn defnyddio'r data i atal gwyngalchu arian a thwyll ac i gadarnhau pwy ydych chi. Os credwn fod risg y gall rhywun dwyllo neu wyngalchu arian, gallem wrthod rhoi iddo'r cynnyrch y mae wedi gofyn amdano a gallem hefyd roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau y mae eisoes yn eu derbyn. Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu o wyngalchu arian, a gallai hynny olygu y gallai sefydliadau eraill wrthod gwasanaeth, cyllid neu waith.
7. Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth i drydydd parti neu sefydliad, boed yn y DU neu'r tu allan iddi, gwnawn yn siŵr mai dim ond yr wybodaeth sydd ei hangen a roddwn a bod eich data'n para'n ddiogel.
8. Gallem os yw hynny'n briodol roi copi o unrhyw gynnig a wnawn, neu'r rheswm dros wrthod cais, copi o unrhyw brisiad rydym wedi gofyn am ei gynnal, manylion unrhyw gwynion a wnewch cyn cwblhau'r broses ac unrhyw wybodaeth a welwn sy'n angenrheidiol i brosesu'ch cais i'w derbyn, i'r canolwr sy'n cyflwyno'r cais hwn am forgais i chi.
9. Ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth oni bai bod gennym yr hawl cyfreithiol i wneud hynny, er enghraifft, os ydych wedi rhoi caniatâd neu os bydd angen i ni ddefnyddio'r wybodaeth i ysgwyddo'n hymrwymiaidau i chi yn ein telerau ac amodau. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hefyd os oes angen er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu i wneud ein priod waith dilys.
10. Mae gennych hawliau o ran eich gwybodaeth bersonol gan gynnwys yr hawl i weld eich data. Cewch ragor o wybodaeth am yr hawliau hyn a phwy i gysylltu â nhw ar <https://developmentbank.wales/cy/polisi-preifatrwydd>
11. Trwy wneud y cais hwn, rwy'n cadarnhau bod yr ymgeisydd arall, os oes un, wedi cytuno i rannu perthynas ariannol â mi. Hefyd, mae'n hapus i Fanc Datblygu Cymru awdurdodi chwiliadau, ac i wneud dolenni a/neu recordiadau o'u gwybodaeth ag asiantaethau cyfeirio credyd.

## Adran 8: Datgeliadau a Chytundebau

**Darllenwch y wybodaeth bwysig ganlynol yn ofalus. Mae hwn yn nodi sut y byddwn) yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn.**

Drwy gwblhau a chyflwyno'r cais hwn, mae pob ymgeisydd y cyfeirir ato isod fel 'fi' neu 'ni' yn cytuno i'r datganiadau canlynol:

**Bydd gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn arwain at wrthod y cais heb esboniad pellach.**

1. Rwyf/Rydym yn ardystio bod y wybodaeth a ddarperir ar y cais hwn yn wir ac yn gywir.
2. Rwyf/Rydym yn cydnabod mai tymor y Morgais Ecwiti yw 25 mlynedd o ddyddiad tynnu'r Morgais Ecwiti ar gyfer yr Eiddo i lawr (yn amodol ar adbrynu cynharach yn unol â thelerau'r Morgais Ecwiti).
3. Rwyf/Rydym yn cydnabod, os byddaf/byddwn yn berchen ar eiddo preswyl y byddaf/byddwn yn gwerthu'r buddiant yn yr eiddo hwnnw cyn cwblhau newid perchnogaeth yr Eiddo gyda chymorth Morgais Ecwiti a'i fod yn amod o'r Morgais Ecwiti mai'r Eiddo sy'n destun Morgais Ecwiti fydd yr unig eiddo preswyl y mae gennyf/gennym fuddiant ynddo am dymor y Morgais Ecwiti.
4. Rwyf/Rydym yn cydnabod ymhellach fod Llywodraeth Cymru wedi'ch penodi chi fel yr Asiantaeth i reoli'r Cynllun ac y cyfeirir yr holl ohebiaeth a thaliadau sy'n ofynnol o dan y Cynllun yn unol â hynny.
5. Gallwch hefyd rannu gwybodaeth amdanaf/amdanom gyda Llywodraeth Cymru, gyda sefydliadau eraill sy'n ymdrin ag arian cyhoeddus a'r Darparwr. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer arolygon ystadegol, sy'n golygu y gallwch drosglwyddo'r wybodaeth hon yn gyfrinachol i awdurdodau lleol, yr Adran Dyfodol Cynaliadwy ac asiantaethau sy'n gweithio ar eich rhan a rhan Llywodraeth Cymru a all gysylltu â mi/ni.
6. Caniateir rhannu'r holl wybodaeth a roddaf/roddwn i chi ar y cais hwn (a gwybodaeth sy'n deillio o gysylltiad â'm ein landlord, cyflogwr, trawsgludwr/cyfreithiwr/ cyfrifydd, datblygwr, cynghorydd ariannol annibynnol a/neu frocer morgais) gyda'r un bobl ond dim ond mewn perthynas â'r cais hwn.
7. Rwyf i/Rydym yn eich awdurdodi i ofyn am chwiliadau gan asiantaethau cyfeirio credyd a fydd yn rhoi gwybodaeth gredyd i chi yn ogystal â gwybodaeth o'r Gofrestr Etholiadol. Bydd yr asiantaethau hyn yn cofnodi manylion unrhyw chwiliadau p'un a yw'r cais hwn yn llwyddo ai peidio, fel y nodir yn yr adran 'Defnyddio'ch Gwybodaeth' uchod.
8. Rwyf/Rydym yn eich awdurdodi i gynnal ymchwiliadau eraill sy'n ofynnol wrth asesu'r cais hwn gan gynnwys sgorio credyd a dadansoddi ystadegol i brofi bod unrhyw gyllid a ddarperir yn cael ei ad-dalu.
9. Rwyf/Rydym yn cydnabod y gallwch rannu gwybodaeth amdanaf/amdanom gyda thrydydd partion megis asiantaethau cyfeirio credyd, sefydliadau atal troseddau ariannol, Banc Datblygu Cymru Ccc a'i holl gwmnïau cysylltiedig, Llywodraeth Cymru ac asiantau cysylltiedig ar gyfer asesu'r cais hwn, atal troseddau ariannol a rheoli unrhyw gyllid a ddarperir.
10. Rwyf/Rydym yn cytuno y bydd yr wybodaeth a'r dogfennau ategol a ddarperir yn cael eu defnyddio gennych i asesu'r cais hwn a bod eich penderfyniad yn derfynol.
11. Rwyf/Rydym yn deall, os canfyddir bod gwybodaeth ffug wedi'i rhoi i gael cymorth o dan y Cynllun naill ai'n fwriadol neu'n ddi-hid, y gallwch gymryd camau cyfreithiol priodol o dan y Morgais Ecwiti.

Drwy gadarnhau eich cytundeb i fwrw ymlaen rydych yn derbyn y gall HtBW, asiantaethau cyfeirio credyd ac asiantaethau atal twyll ddefnyddio'ch gwybodaeth yn y ffordd a ddisgrifir yn y cais hwn ac fel y nodir yn ein hysbysiad preifatrwydd. Os ydych yn cwblhau'r cais hwn ar ran unigolyn arall, rhaid i chi sicrhau ei fod yn ymwybodol y bydd y wybodaeth bersonol a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio gan HtBW, asiantaethau cyfeirio credyd ac asiantaethau atal twyll yn y ffordd a ddisgrifir yn y cais hwn ac fel y nodir yn ein hysbysiad preifatrwydd.

**Wrth gyflwyno'r cais hwn rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y datgeliadau a'r cytundebau uchod a bod y manylion ar y cais hwn yn gywir a bod y wybodaeth a ddarparwyd yn gywir.**

Mae'r cais hwn yn cael ei gwblhau gan: (Rhowch eich enw llawn isod)	ac mae'n cynnwys gwybodaeth bersonol am yr ymgeiswyr canlynol: (Rhowch enw llawn y prynwr unigol)
	<b>Perchennog sy'n Aros</b>
	<b>2il Berchennog Newydd</b>

## Adran 8: Datgeliadau a Chytundebau (Parhad)

### CYDSYNIAD

Rwy'n cadarnhau:

Fy mod yn ymwybodol y bydd fy ngwybodaeth bersonol a ddarperir i chi yn cael ei defnyddio gennych i gynnal asesiad credyd gan ddefnyddio asiantaeth gyfeirio credyd.

Rwy'n datgan ac yn cadarnhau bod pob ymgeisydd unigol a enwir yn y cais hwn yn:

**Perchennog sy'n Aros**

**2il Berchennog Newydd**

Ddinesydd y DU

Dinesydd AEE

Person sydd â chaniatâd amhenodol i aros

Arall

Dyddiad:

**Dywedwch wrthym ba iaith y mae'n well gennych gyfathrebu ynddi:**

**Cwsmer 1**

**Cwsmer 2**

Cymraeg

Saesneg

**I'n helpu i'ch adnabod a diogelu dogfennau a anfonwn atoch sydd â data sensitif, rhowch gyfrinair sy'n defnyddio llythrennau bach a rhifau yn unig. Rhowch nodyn atgoffa priodol i'ch cyfrinair**

Cyfrinair:

*Does dim nodau arbennig yn cael eu caniatáu  
Defnyddir llythrennau bach a rhifau*

Nodyn Atgoffa  
i'r Cyfrinair:

*Rhaid iddo fod yn wahanol i'r cyfrinair*

Gellir rhannu'r holl wybodaeth a roddaf/roddwn i chi ar y ffurflen hon (a gwybodaeth sy'n deillio o gysylltiad â m/ein landlord, Prisiwr, Cyflogwr, Trawsgludwr/Cyfreithiwr/Cyfrifydd, Cynghorydd Ariannol Annibynnol a/neu Frocer Morgais) gyda'r un bobl ond dim ond mewn perthynas â'r cais hwn..

Mae Cymorth i Brynu (Cymru) Ltd yn rheoli'r Cynllun ar ran Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chredyd nad ydynt wedi'u cynnwys mewn eithriad. Cymorth i Brynu (Cymru) Cyf – Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr o dan rif 8708403 yn Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ellice Way, Wrecsam LL13 7YL.